**Y CABINET  DYDD MAWRTH, 7 GORFFENNAF 2026**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd), Cyng Delyth Lloyd Griffiths (Cyn Is Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Roland Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd), Cyng Sian Williams (Is Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal), Sioned Eirian Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned), Dylan Rhys Griffiths (Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru), Siwan Evans (Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd), Aled Gibbard a  Sianed Jones (Penaethiaid Cynorthwyol Adran Plant a Theuluoedd), Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Amlygwyd mai'r hwn yw'r cyfarfod olaf o'r Cabinet cyn toriad yr haf, a chymerwyd y cyfle i ddiolch i holl staff ac Aelodau'r Cyngor am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn. Cadarnhawyd bod llawer wedi'i gyflawni gan y Cyngor yn ystod y 6 mis prysur diwethaf, gydag amryw o gynlluniau cyffrous ar y gweill at ail hanner y flwyddyn.

Tynnwyd sylw at Bencampwriaeth Bêl- droed Ewro dan 19 sy'n cael ei chynnal yng Ngwynedd ar y funud. Ymfalchïwyd bod y Sir wedi gallu croesawu timau o ar draws Ewrop i chwarae yma, a chanmolwyd ymdrech tîm Cymru yn y gystadleuaeth.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorwyr June Jones a Dewi Jones mewn perthynas ag Eitem 13. Bu i'r ddau Aelod adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2026 fel rhai cywir.

6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL RHAGLEN CEFNOGI POBL 2025/26**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

**TRAFODAETH**

Dywedwyd mai'r adroddiad gerbron yw'r adroddiad blynyddol cyntaf i adrodd ar gynnydd y rhaglen Cefnogi Pobl.

Eglurwyd mai nod y rhaglen yw cynorthwyo trigolion y Sir wrth iddynt geisio ymdopi â heriau'r argyfwng costau byw, gan gynnig cefnogaeth, gwybodaeth a mynediad at wasanaeth sy'n sicrhau tegwch i bawb. Soniwyd am yr effaith y caiff yr argyfwng costau byw ar lesiant trigolion, ac felly bod angen amlwg am gymorth ymarferol yn y maes hwn. Aethpwyd ymlaen i esbonio bod yr adroddiad yn dangos y gefnogaeth a gaiff ei gynnig i drigolion, a straeon gan dderbynwyr y gefnogaeth am yr effaith cadarnhaol mae'r gefnogaeth wedi'i gael ar eu bywydau.
Diolchwyd i staff y Cyngor, ei bartneriaid, sefydliadau lleol a chymunedau am eu gwaith i gefnogi pobl Gwynedd.

Nodwyd mai ychwanegiad i waith dydd i ddydd y Cyngor yw'r gwaith hwn, gan amlygu bod yr adroddiad yn adrodd ar yr ymyraethau ychwanegol sydd wedi eu rhoi mewn lle gan y Cyngor er mwyn blaenoriaethu'r maes hwn. Manylwyd ar y trefniadau sydd mewn lle, ar y cyd gyda phartneriaid lleol, i sicrhau fod hybiau o fewn cymunedau i alluogi mynediad at wybodaeth a chefnogaeth i drigolion yn lleol. Soniwyd y bu hyrwyddwyr lles yn bresennol o fewn yr hybiau hyn i gynnig cefnogaeth i drigolion yn ogystal. Soniwyd am yr hyfforddiant ynglŷn â magu ffordd o weithio sy'n empathetig yn seiliedig ar fod yn wybodus o drawma, ac sy'n rhoi'r person yn ganolog. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod y gwaith hwn yn cael effaith cadarnhaol ar bobl Gwynedd, gan dynnu sylw at yr astudiaethau achos o brofiadau defnyddwyr y gwasanaethau, a gaiff eu cynnwys yn yr adroddiad. Cadarnhawyd y bydd cofrestru awtomatig ar gyfer tariffau cymdeithasol yn parhau i gael ei hyrwyddo, gan sicrhau fod y bobl hynny sy'n gymwys i'w derbyn yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Ychwanegwyd y caiff ymgyrchoedd eu cynnal i sicrhau fod gan bobl fynediad at wybodaeth a gweithgareddau sydd ar gael ar draws y Sir ar adegau penodol. Nodwyd bod y rhwydwaith hybiau yn parhau i ddatblygu ac esblygu, a bwriadwyd parhau i gyd weithio â gwasanaethau i geisio rhedeg yr hyfforddiant Trawma Wybodus ac ymwybyddiaeth hawliau plant ar draws y Cyngor.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Cyfeiriwyd at ffocws y rhaglen o geisio rhoi'r person yn ganolog, gan sôn bod Stori 'Dewi' a gaiff ei gynnwys yn yr Adroddiad yn enghraifft o hyn ar waith. Nodwyd bod sgwrs anffurfiol, a ddatblygwyd o gais gwreiddiol 'Dewi', wedi arwain ato'n gallu derbyn cymorth ychwanegol.
  Amlygwyd bod y cynnydd yn nefnydd deallusrwydd artiffisial yn effeithio nifer o wasanaethau, a holwyd am ddyfodol gwasanaethau codi'r ffôn er enghraifft, wrth fynd ymlaen. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at brosiect peilot "Gafael Llaw" gan nodi i'r gwaith hwn amlygu effaith cadarnhaol cynnal sgyrsiau anffurfiol ar allu unigolion i dderbyn cefnogaeth bellach na gofynion eu cais gwreiddiol, i ddiwallu eu holl anghenion. Mewn perthynas â dyfodol y math hwn o wasanaeth, pwysleisiwyd pwysigrwydd parhaol sgwrs gyda pherson i garfannau o'r gymuned. Ar ben hynny, amlygwyd y gall cynnig y gwasanaeth hwn gynorthwyo gydag unigedd yn ogystal, drwy roi cyswllt gyda pherson arall i unigolion.
- Tynnwyd sylw at yr hybiau cymunedol gan sôn am eu pwysigrwydd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gan eu bod yn rhoi cyfle i ddod a gwasanaethau'n nes at drigolion y Sir. Aethpwyd ymlaen i drafod y gwaith ehangach sy'n digwydd o fewn yr hybiau hyn yn ogystal, megis elfennau o ofal seibiant, gwaith ataliol a chefnogi gofalwyr. Diolchwyd am y ddarpariaeth hon.
- Awgrymwyd efallai nad yw'r rheiny o fewn ardaloedd fwyaf gwledig y Sir yn ymwybodol o'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig gan y Cyngor. Ymhelaethwyd ar hyn gan gynnig y byddai hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Gynghorau Cymuned er enghraifft, yn golygu bod modd rhannu'r neges ymhellach a chyrraedd mwy o drigolion. Cadarnhawyd mai yng nghanol trefi mae'r hybiau wedi eu lleoli gan amlaf, ond y caiff bwletin ei gynnwys mewn papurau lleol sy'n nodi manylion cyswllt er mwyn gallu cael mynediad at y wybodaeth pe na fyddai unigolyn yn gallu cyrraedd un o'r hybiau. Nodwyd bod cynllun cyfathrebu mewn lle, a chytunwyd bod rhaeadru'r wybodaeth a'r bwletin costau byw i Gynghorau Cymuned yn rhywbeth i'w ystyried ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ei hargymhelliad.
- Holwyd am allu darpariaeth y Cyngor i ymateb i'r galw cynyddol bresennol am wasanaethau cymorth, a'i allu i ymateb i'r galw sy'n cael ei ragweld yn y dyfodol. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod y rhaglen yn esblygu i geisio cyfarch yr heriau yn sgil y cynnydd yn y galw, yn ogystal â'r newid yn y galw hwnnw. Wrth edrych i'r dyfodol, esboniwyd y bydd buddsoddiad i uwch sgilio gweithleoedd er mwyn ymateb i'r newid yn y math o bobl sy'n cael eu cefnogi, â'r hyn y cânt eu cefnogi ag o.

## 7. DIWEDDARU CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR 2022/23 - 2029/30 CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r addasiadau i’r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac yn mabwysiadu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 - 2029/30 Cyngor Gwynedd (F.2).

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod y Cynllun Hinsawdd a Natur wedi’i fabwysiadu ers 4 blynedd bellach, ac felly ei bod yn amserol i’w adolygu.
Amlygwyd bod Cyngor Gwynedd yn arwain yn y maes hwn yng Nghymru ac yn ehangach, gan adnabod mai’r Cyngor hwn oedd un o’r cynghorau cyntaf i ddatgan argyfwng newid hinsawdd, a sefydlu Bwrdd Hinsawdd a Natur yn dilyn hynny. Ymfalchïwyd yn y ffaith bod swyddogion wedi bod yn gweithio ar leihau ôl-troed carbon y Cyngor ers dros ddegawd bellach, a chanmolwyd safon y staff sy’n gweithio yn y maes hwn o fewn y Cyngor.
Adnabuwyd mai’r cam nesaf o ran y Cynllun yw cyd-weithio â thrigolion, a soniwyd bod yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd y llynedd wedi amlygu’r angen i wneud hynny’n ogystal. Esboniwyd bod grwpiau wedi trafod y Cynllun mewn cynadleddau, a bu i’r trafodaethau hynny fwydo i mewn i’r adolygiad hwn.
Atgoffwyd y Cabinet y bydd ceisiadau am gyllid ar gyfer y prosiectau a gaiff eu hadnabod yn y Cynllun yn dod ger eu bron maes o law.

Croesawyd cyn is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i’r cyfarfod i gyflwyno argymhellion y Pwyllgor i’r Cabinet. Nodwyd y bu i’r Cynllun gael ei ail graffu gan y Pwyllgor ym mis Ionawr eleni, gan esbonio i’r Pwyllgor graffu’r newidiadau y bwriadwyd eu gwneud i’r Cynllun, yr ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus, a’r ffynonellau cyllido sydd wedi eu hadnabod. Datganwyd bod y Pwyllgor wedi croesawu’r bwriad i ail-edrych ar y targed i’r Cyngor fod yn Garbon Sero Net erbyn 2030. Manylwyd ar y neges a godwyd yn y Pwyllgor Craffu, sef yr angen i fod yn fwy uchelgeisiol.

Cadarnhawyd bod yr Adran wedi ymateb i’r holl argymhellion a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Craffu, a bod y mwyafrif ohonynt wedi eu hymgorffori i’r Cynllun yn ogystal.

<u>Sylwadau’n codi o’r drafodaeth:</u>

- Pwysleisiwyd ei bod yn allweddol i’r Cyngor barhau i fod yn uchelgeisiol yn y maes hwn, yn enwedig o weld y gwres eithafol sy’n taro’r wlad ar y funud. Yn sgil y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn adolygu’r targed Net 0 cenedlaethol a chyllidebau carbon cysylltiedig, holwyd a oes unrhyw ddiweddariad ynglŷn â hyn. Datgelwyd gan yr Aelod Cabinet perthnasol mai disgwyl am arweiniad gan y Llywodraeth mae’r Adran ar hyn o bryd, gan nodi y byddai’n barod i gydweithio â swyddogion o fewn y Llywodraeth er mwyn ceisio troi uchelgeisiau’r Cyngor hwn yn realiti.
- Mewn ymateb i gwestiwn am gamau nesaf y Cynllun hwn, bwriadwyd rhannu’r Cynllun ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y we, gan geisio sicrhau ei fod mor hygyrch â phosib. Canmolwyd y lluniau a gaiff eu defnyddio drwy gydol y ddogfen.

- Gofynnwyd am ddiweddariad o ran y cynlluniau i symud tuag at fflyd o gerbydau trydan. Cadarnhawyd bod y gwaith hwn yn nwylo'r Cyngor, gan adnabod hefyd y caiff cefnogaeth ei dderbyn gan y Llywodraeth er mwyn ymgymryd â pheth o'r gwaith hwn. Aethpwyd ymlaen i nodi bod trosiant loriau ac offer trwm yn cymryd amser o ganlyniad i orfod disgwyl i weld beth mae'r farchnad yn ei gynnig o ran y cerbydau trwm hyn.

## 8. STRATEGAETH GWASTRAFF AC AILGYLCHU A DEFNYDD O ARIAN EPR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:
Mabwysiadu Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd 2025–2030 fel y ddogfen strategol sy'n gosod cyfeiriad, gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ym maes gwastraff ac ailgylchu dros y pum mlynedd nesaf.

Cymeradwyo'r egwyddor o ddefnyddio Cyllid Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd (EPR) fel y prif ffynhonnell ariannu i gefnogi a galluogi gweithredu blaenoriaethau'r Strategaeth, gan gynnwys cynlluniau i gynyddu ailgylchu, gwella gwasanaethau, cynnal seilwaith presennol a buddsoddi mewn isadeiledd y dyfodol.

Cymeradwyo'r cyfeiriad strategol ar gyfer defnyddio cyllid EPR i:
- reoli risgiau ariannol uniongyrchol y gwasanaeth drwy greu darpariaeth ariannol "rhag ofn", megis delio gyda gorwariant ar ddarparu gwasanaethau lle nad oes dull amgen o'i gyfarch, lleihau'r risg o ddirwyon am fethu â chyrraedd targedau ailgylchu a pharatoi ar gyfer costau'r Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS).
- darparu sail ariannol gadarn ar gyfer gweithredu'r cynlluniau a nodir yn y Strategaeth, gan gynnwys y camau i gyrraedd y targed ailgylchu o 70% a'r buddsoddiadau tymor byr sydd eu hangen ar gyfer uwchraddio.
- sefydlu Cronfa Cydariannu i gefnogi datblygu sylweddol yn safleoedd y dyfodol yng Nghaernarfon a Harlech.

Nodi y bydd penderfyniadau pellach yn ofynnol ar rai elfennau gweithredol unigol o'r Strategaeth a'r defnydd o'r cyllid EPR, ond bod mabwysiadu'r Strategaeth a chymeradwyo cyfeiriad defnydd EPR yn darparu'r fframwaith polisi a'r sail ariannol i symud ymlaen gyda'r rhaglen waith.

Nodi y bydd angen i'r Cyngor ystyried pob ffynhonnell ariannol posib wrth fynd ati i osod cyllideb refeniw 2027/28 a'r blynyddoedd dilynol ac na ellir diystyru y posibilrwydd o orfod ail ymweld â'r penderfyniadau uchod pe byddai angen dargyfeirio elfen o'r cyllid EPR ar gyfer gallu gosod cyllideb hafal.

**TRAFODAETH**

Amlygwyd mai hon yw'r Strategaeth Wastraff gyntaf i'r Cyngor ei datblygu, ac ychwanegwyd ei bod yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer ymdriniaeth y Cyngor â'r pwnc gwastraff.
Cyfeiriwyd at darged Llywodraeth Cymru i ailgylchu 70% o wastraff y Sir, a nodwyd gan yr Aelod Cabinet y byddai'n hoff o weld y Sir yn ailgylchu 100% o'i wastraff yn ogystal â cheisio lleihau faint o wastraff a gynhyrchir yma. Er nad oes posib i'r Cyngor reoli faint o wastraff a gynhyrchir yn y Sir, datganwyd bod angen gwneud dipyn mwy nac ailgylchu'n unig. Awgrymwyd yr angen i gryfhau ein heconomi gylchol, gweld gwastraff fel adnodd a chanolbwyntio ar yr elfen ailddefnyddio yn ogystal.

Cyflwynwyd rhai o'r rhesymau hynny y tu ôl i geisio cyflwyno Strategaeth o'r fath yn y Sir, gan nodi fod y gwasanaeth yn wynebu amryw o heriau. Cyfeiriwyd at y targed statudol i ailgylchu 70% o wastraff y Sir, gan egluro nad yw Gwynedd yn cyrraedd y targed hwn ar hyn o bryd. Aethpwyd ymlaen i sôn am y risg o dderbyn dirwy ariannol sylweddol pe na fyddai'r Cyngor yn cyrraedd y targed hwn, ac ychwanegwyd bod risg o gostau yn ymwneud â charbon ar y gorwel yn ogystal.
Esboniwyd yr ymgeisia'r Strategaeth i foderneiddio'r gwasanaeth ac aethpwyd ymlaen i egluro ei weledigaeth ehangach. Adnabuwyd chwe phrif flaenoriaeth y Strategaeth sef;

- Cyfathrebu ac Ymgysylltu,
- Lleihau, Ailddefnyddio a Thrwsio,
- Cynyddu Ailgylchu,
- Darparu Gwasanaeth o Ansawdd Uchel,
- Cyflawni Sero Net,
- Isadeiledd sy'n Addas i'r Dyfodol

Datganwyd bod cyllid EPR yn ffrwd ariannu newydd wedi'i selio ar yr egwyddor mai'r "llygrwr sy'n talu" cost rheoli'r gwastraff pecynnu maent yn ei greu. Nodwyd i'r Cyngor dderbyn swm sylweddol o gyllid EPR y llynedd a bod cynnydd yn y ffigwr hwn wedi'i ragweld ar gyfer eleni. Amlygwyd bod bwriad i ddefnyddio'r cyllid hwn mewn ffordd gytbwys, fel a'i hargymhellir yn yr Adroddiad. Dywedwyd nad yw'r Strategaeth yn unig yn ddigonol, a bod angen adnoddau i wireddu newid.
Trafodwyd y gefnogaeth a gafwyd i'r Strategaeth yn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2025. Cydnabuwyd bod rhai pryderon wedi eu codi, a hynny'n ymwneud â'r angen i sicrhau bod y gwasanaeth yn deg ac yn hygyrch i bawb.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Croesawyd y Strategaeth gan bwysleisio ei bwysigrwydd.
- Sylwyd ar gost uchel y gwasanaeth, gan holi beth sy'n achosi i'r gwasanaeth fod yn ddrytach na gwasanaethau o fewn siroedd eraill. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod yr adroddiad diwethaf gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi bod y Cyngor yn mynd i'r cyfeiriad cywir o ran lleihau'r gost hon. Cyfeiriwyd at ffactorau daearyddol sy'n effeithio ar y costau hyn yng Ngwynedd, gan amlygu daearyddiaeth wledig y Sir o'i gymharu â siroedd eraill.

- Mynegwyd balchder am y sylw sydd wedi ei roi i bobl sydd â dementia, yr henoed, a phobl anabl, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael i'w cefnogi. Pryderwyd am y defnydd o sachau ailgylchu yn hytrach na'r cartiau, gan ragweld cynnydd yn y galw am gasgliadau o ddrws cefn gan fod y sachau'n anoddach i'w symud.
- Rhoddwyd diweddariad am y peilot sachau ailgylchu a fwriedir ei gynnal mewn ardal arall. Gan nodi na fydd gorfodaeth i ddefnyddio sach, amlygwyd bod y sachau hyn yn rhatach na'r cart, yn dal mwy, ac nad oeddent yn chwythu i ffwrdd yn y peilot blaenorol.
- Mewn ymateb i gwestiwn am berfformiad ailgylchu'r Cyngor dros gyfnod 2025/26, cadarnhawyd mai ffigyrau drafft sydd gan yr Adran ar hyn o bryd. Adroddwyd y bu i Gyfoeth Naturiol Cymru ofyn i bob Cyngor ail edrych ar eu dull o ailgylchu coed, ac mae hyn o ganlyniad wedi cael effaith negyddol ar ffigyrau ailgylchu awdurdodau lleol ar draws Cymru.
- Mewn perthynas â'r flaenoriaeth Lleihau, Ailddefnyddio a Thrwsio, eglurwyd y bydd y Cyngor yn dibynnu ar fentrau cymunedol ac ati i gynorthwyo a'r gwaith hwn. Ychwanegwyd bod bwriad i agor siop ail ddefnyddio yng nghanolfan ailgylchu ym mis Medi ar gyfer pobl leol, ac y bydd arweiniad ar gael ar gyfer mentrau cymunedol er mwyn cynorthwyo i wireddu'r Strategaeth.
- Wrth drafod cynhadledd ddiweddar a fynychodd yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, soniwyd am fodelau rhentu ar gyfer cyrff megis y Cyngor, mewn ymgais i geisio hybu ail ddefnyddio yn hytrach na phrynu o'r newydd.

## 9. ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB (GORFFENNAF 2026)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gerbron sef y pedwerydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd mai'r adroddiad gerbron yw'r pedwerydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb. Datganwyd bod yr adroddiad yn codi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau o ran y gwaith hwn, yn ogystal ag adrodd ar yr hyn sy'n parhau i fod angen ei gyflawni gan y Bwrdd Ymateb.

Nodwyd nad oedd yr Athro Sally Holland yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn i gyflwyno ei hadroddiad, felly bod bwriad i ail gyflwyno'r eitem yng nghyfarfod y Cabinet fis Medi er mwyn i Gadeirydd y Bwrdd allu cyflwyno'r adroddiad. Cadarnhawyd y bwriad i gynnal trafodaeth fanylach ar yr eitem fis Medi o ganlyniad.

Cydnabuwyd dewrder y dioddefwyr a’r goroeswyr, gan ategu eu bod ar flaen meddyliau pob un wrth drafod y pwnc hwn.

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2025/26**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

**TRAFODAETH**

Amlygwyd pwysigrwydd y Panel hwn, a chydnabuwyd bod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol i’r Cyngor. Mynegwyd balchder am y gweithredu sy’n cymryd lle yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Cyfiawnder drwy ein Dewrder, er mwyn cryfhau trefniadau’r Cyngor yn y maes hwn.
Wrth gyfeirio at ymgais y Cyngor i fod yn agored a thryloyw o ran ei ymateb, eglurwyd bod yr eitem hon wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal, a bod bwriad i’w gyflwyno i’r Cyngor Llawn maes o law yn ogystal.

Pryderwyd am y cynnydd yn niferoedd y cyfeiriadau plant ac oedolion a gaiff eu derbyn, ac effaith hyn ar wasanaethau a staff yr adrannau perthnasol. Aethpwyd ymlaen i nodi bod nifer y staff sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant VAWDASV wedi cynyddu, a bod y ffigwr o ysgolion sydd wedi cyflwyno hyfforddiant diogelu i’w staff bellach yn 100%.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor sydd wedi ymgymryd â’r gwaith hwn, gan atgoffa fod diogelu yn fater i bob adran.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y data sydd ar flaen yr Adroddiad yn dal i gael ei wirio, a nodwyd bod posib i rai o’r ffigyrau hyn gael eu diweddaru erbyn i’r Adroddiad gael ei gyflwyno i’r Cyngor Llawn maes o law.
Croesawyd Is Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal i’r cyfarfod i gyflwyno argymhellion y Pwyllgor i’r Cabinet. Cadarnhawyd bodlonrwydd y Pwyllgor gyda’r cynnydd yng ngwaith y Panel.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth:

- Cyfeiriwyd at y cynnydd yn y niferoedd o gyfeiriadau i wasanaethau plant yn 2025/26, a holwyd a yw ymwybyddiaeth uwch a lefelau hyfforddiant uwch ymysg staff yn ffactor wrth edrych ar y cynnydd hwn. Croesawyd yr ymwybyddiaeth uwch

ymysg staff. Ategwyd y pryder am nifer y cyfeiriadau, ond ar y llaw arall nodwyd yr angen i sicrhau bod pobl yn cyfeirio'n briodol, yn ddi-oed a heb rwystr.

- Mewn ymateb i gwestiwn am sefyllfa hyfforddiant i Lywodraethwyr, cyfeiriwyd at y data sydd wedi'i nodi yn yr Adroddiad ynglŷn â'r sesiynau hyfforddiant Diogelu i Gadeiryddion a Llywodraethwyr Diogelu dynodedig. Gwnaethpwyd sylw am rôl hollbwysig Llywodraethwyr yn y gyfundrefn, ac felly ei bod yn allweddol iddynt fod yn ymwybodol o'r holl drefniadau diogelu a'r cyfrifoldeb sydd arnynt. Amlygwyd bod swyddog ychwanegol bellach yn gweithio o fewn y tîm sy'n cefnogi Llywodraethwyr o fewn yr adran Addysg.
- Wrth drafod a yw'r cynnydd hwn mewn cyfeiriadau yn gyffredin ar draws y wlad, eglurwyd bod y Sir yn derbyn ychydig yn llai o gyfeiriadau ar gyfartaledd na siroedd eraill. Er hyn, amlygwyd bod bob sir yng Nghymru yn gweld cynnydd mewn cyfeiriadau a thybiwyd bod cwestiynau cymdeithasegol cenedlaethol ynglŷn â'r hyn sydd y tu ôl i'r cynnydd hwn a sut i fynd i'r afael ag o. Tynnwyd sylw at y ffaith fod Gwynedd yn dilyn tuedd genedlaethol y blynyddoedd diwethaf, gan nodi fod cynnydd yn y nifer o blant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ogystal â'r nifer cyfeiriadau.
- Gwnaed sylwad am y pryder amlwg ynghylch y gwasanaeth DoLS ers cryn amser bellach, a gofynnwyd sut y mae'r adran yn gobeithio mynd i'r afael â hyn. Mewn ymateb, datganwyd bod dyfarniad diweddar y Goruchaf Lys yn golygu y bydd newid sylweddol yn y maes hwn. Er nad yw'r canllawiau statudol ynghylch y penderfyniad hwn wedi eu derbyn eto, rhagwelwyd bod posib i gannoedd o bobl ddod oddi ar y rhestr aros DoLS o ganlyniad. Dywedwyd na fydd unrhyw beth yn cael ei newid nes y caiff y canllawiau eu derbyn. Gan fod y Cyngor wedi buddsoddi yn y gweithlu, gobeithiwyd y bydd adnodd digonol i ddygymod a phwysau'r maes hwn wrth fynd ymlaen.
- Cyfeiriwyd at y ganran o staff y Cyngor sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant VAWDASV gan holi sut y bwriedir codi'r ganran hon yn uwch. Datganwyd bod yr hyfforddiant hwn yn statudol, a chroesawyd y ffaith fod Cymru yn flaengar yn hynny o beth. Ehangwyd ar hyn gan nodi bod cynlluniau ar droed i geisio cynyddu'r nifer sy'n cwblhau'r hyfforddiant hwnnw yn ogystal â'r hyfforddiant diogelu. Soniwyd am rôl y Swyddog Hyrwyddo Diogelu wrth geisio sicrhau hygyrchedd yr hyfforddiant i bob rhan o'r gweithlu a sicrhau fod staff yn ei gwblhau.
- Tynnwyd sylw at yr hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a gafodd ei ddarparu ar gyfer staff Siop Gwynedd. Ymfalchïwyd yn y ffaith bod fideos o berson yn arwyddo ar sawl tudalen ar wefan y Cyngor bellach, fel bod y wybodaeth fwyaf cyffredinol yn hygyrch.
- Mewn ymateb i gwestiwn am y 'Parthau Diogel' sydd wedi eu datblygu ym Mangor a Chaernarfon, datgelwyd bod y Cyngor yn dal i weithio'n agos gyda'r Heddlu. Manylwyd eu bod yn ceisio sicrhau bod ardaloedd lle mae goleuadau stryd digonol a chamerâu cylch cyfyng er mwyn galluogi pobl i gerdded yn ddiogel wedi iddi nosi. Adroddwyd bod y Cyngor yn ceisio cynnal asesiad ar y cyd gyda'r Heddlu, er mwyn ceisio deall lle mae'r risgiau mwyaf ac adnabod y mannau hynny lle mae troseddau wedi cymryd lle yn y gorffennol fel bod modd datblygu'r cynllun hwn ar draws y Sir. Adnabuwyd gan Aelod Cabinet nad oes swyddogion yn edrych ar y camerâu hyn ar y pryd bellach, a phryderwyd bod hynny'n gam yn ôl oherwydd y risg o fethu cyfle i ymyrryd pe bai yno berson mewn peryg. Nodwyd y bu i hyn gael ei grybwyll mewn cyfarfod diweddar o Fforwm Ardal Bangor/Ogwen mewn sgwrs gydag Arolygydd Ardal Gogledd Gwynedd. Datganwyd nad oedd hyn wedi ei godi yn y

Grŵp Mannau Diogel nac yn y Panel Strategol Diogelu, ond cytunwyd i'w drafod gyda'r swyddogion perthnasol er mwyn gweld os yw'n rhywbeth y dylid ei ystyried.

- Cyfeiriwyd yn ôl at sylw ynglŷn â Llywodraethwyr, gan adrodd bod holiadur wedi ei gylchredeg i Lywodraethwyr fynegi eu hyder yn eu rolau a'u rolau diogelu. Gobeithiwyd y caiff ganlyniadau'r holiadur hwn eu rhannu'n fuan.
- Wrth gynnig mwy o wybodaeth ynglŷn â dull rhagweithiol y Gwasanaethau Plant o sicrhau y caiff llais y plentyn ei glywed wrth ymateb i bryderon sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, datganwyd y golyga'r newid mewn trefn bod gweithiwr cymdeithasol yn mynd i siarad â'r plentyn pe byddai unrhyw honiad ynglŷn ag unrhyw un sydd mewn swydd o ymddiriedaeth yn cael ei wneud. Crybwyllwyd bod ambell i achlysur lle mae'r plentyn ei hun neu riant yn gwrthod y cyswllt hwnnw, ac fe all hynny fod yn heriol.
- Cyfeiriwyd at yr ymchwiliad craffu a wnaethpwyd gan aelodau o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, ynglŷn â siarad â phlant er mwyn gweld eu dealltwriaeth o sut mae gwneud cyfeiriad neu honiad, ac at bwy y dylid troi pe byddai pryder ganddynt. Cadarnhawyd bod adroddiad ar hyn wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu, a bod plant i weld yn gyffredinol ymwybodol o'r prosesau i'w dilyn. Aethpwyd ymlaen i drafod y gwaith parhaus pellach sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn yn ogystal. Nodwyd bod adroddiad am yr ymchwiliad craffu ar fin cael ei gyhoeddi, a diolchwyd i bawb a gymerodd ran yn y gwaith. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cefnogaeth wedi ei roi i'r ymchwiliad craffu gan ymchwilwyr annibynnol yn ogystal.
- Pryderwyd am y nifer cynyddol o blant sy'n cael eu haddysgu gartref, a bod hawl gan rieni i wrthod unrhyw gyswllt gan y Cyngor. Amlygwyd ei fod yn fater sy'n codi yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr adran Addysg, ac eglurwyd bod y cynnydd hwn i'w weld yn genedlaethol. Ymhelaethwyd ar hyn gan nodi fod cyfundrefn wedi ei chreu er mwyn ymweld â'r rheiny sy'n dad gofrestru, ac y caiff hynny ei fonitro. Soniwyd am yr heriau sydd ynghlwm â'r maes hwn, ac awgrymwyd yr angen am drafodaethau cenedlaethol yn sgil y cynnydd. Aethpwyd ymlaen i dynnu sylw at y gwahanol garfannau o fewn y ffigwr o blant a gaiff eu haddysgu gartref; soniwyd bod rhai o'r plant hyn wedi dad gofrestru o'r ysgol, ac eraill erioed wedi mynychu'r ysgol ac felly wedi derbyn eu holl addysg gartref. Pwysleisiwyd bod carfannau o'r plant sy'n derbyn addysg gartref yn derbyn addysg dda, ond bod pryder am garfannau eraill o'r plant hyn. Eglurwyd bod y gefnogaeth a gynigir i'r rheiny sy'n addysgu eu plant gartref yn ddewisol ac felly nad oes gan y Cyngor hawl i orfodi'r cyswllt hwnnw, heblaw bod pryderon diogelu. Cynigiwyd bod hyn yn rhywbeth y dylai'r Llywodraeth fod yn edrych arno, a chredwyd bod rhai achosion lle mae angen mwy o hawliau ar yr awdurdod. Yn sgil y cynnydd yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol, credwyd bod rhai plant lle nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol o fewn y gyfundrefn addysg, a bod hyn yn ffactor ym mhenderfyniad rhai rheini wrth dynnu eu plant o'r ysgol.
- Adnabuwyd y gwaith a gaiff ei wneud o ran atal trais yn erbyn menywod, cam drin domestig a thrais rhywiol, a chadarnhawyd bod angen gwneud mwy yn y maes hwn. Pwysleisiwyd yr angen i gymdeithas fod yn gwneud mwy yn y maes hwn yn ogystal, gan dynnu sylw at y ffaith fod y niferoedd o bobl sy'n profi trais domestig yng ngogledd Cymru yn un o'r uchaf ym Mhrydain. Nodwyd bod angen edrych ar ddatblygu gwasanaethau trais domestig yn well ar draws y Cyngor ac ar draws sefydliadau cyhoeddus eraill. Aethpwyd ymlaen i nodi'r angen i sicrhau

bod y materion hyn yn aros ar frig agenda'r Cyngor, a'r angen i gynnig hyfforddiant parhaus a staff a thrigolion.

## 11. ADOLYGIAD POLISI DIOGELU (2026)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

### PENDERFYNIAD

Fod y Cabinet yn mabwysiadu Polisi Diogelu Diwygiedig 2026 ac yn cymeradwyo y camau ymwybyddiaeth a nodir yn yr adroddiad.

### TRAFODAETH

Adroddwyd bod y Polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn cyfarch y ddeddfwriaeth a'r canllawiau diweddaraf. Pwysleisiwyd pwysigrwydd barn ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal wrth iddynt graffu ar yr eitem, gan nodi bod eu hargymhellion wedi'u cynnwys yn y ddogfen.

Croesawyd Is Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal i'r cyfarfod i gyflwyno argymhellion y pwyllgor i'r Cabinet. Cyflwynwyd yr argymhellion sef symud y rhestr diffiniadau i flaen y ddogfen, ac ystyried cynnwys cymal o fewn y Polisi sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o'r arwyddion bod plentyn yn cael ei gam feithrin neu fwlio ar lein.

Cydnabuwyd bod cryn newid wedi ei wneud i'r polisi ers yr adolygiad diwethaf, gan bwysleisio yr adlewyrcha hyn y dysgu sydd wedi'i wneud yn y maes hwn.

Nodwyd nad oes asesiad ardrawiad cydraddoldeb wedi ei gwblhau yma gan mai diwygio'r polisi yn unig sy'n cael ei wneud ar y pwynt hwn. Ymhelaethwyd gan ddweud y bydd angen i asesiad gael ei wneud pan fydd yn dod gerbron y Cabinet mewn dwy flynedd.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sicrwydd am effeithiolrwydd y polisi hwn, datganwyd y bydd y wybodaeth yn mynd gerbron Pwyllgor Craffu, y Tîm Arweinyddiaeth, a'r Cabinet yn rheolaidd. Cyfeiriwyd yn ogystal at Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, a bod bwriad i gomisiynu awdit ychwanegol i asesu dealltwriaeth staff o'r Polisi Diogelu a sut y dylid ei weithredu. Gobeithiwyd y bydd y gwaith yn rhoi sicrwydd o ymwybyddiaeth y gweithlu.

- Pwysleisiwyd bod diogelu yn fater i bob adran ar draws y Cyngor, ac adnabuwyd bod eitem diogelu bellach ar agenda bob cyfarfod o’r Tîm Rheoli Corfforaethol a thimau rheoli adrannol.

## 12. DYRANNU GWARGED INCWM O'R PREMIWM AIL GARTREFI A THAI GWAG AR GYFER 2025-26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Dyrannu’r incwm ychwanegol o’r premiwm ar eiddo gwag ac ail-gartrefi i’r meysydd blaenoriaeth a nodir yn Rhan 4 isod.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod cyfanswm gwarged o £917,770 ar gyfer 2025/26 ar gael i’w ddyrannu. Esboniwyd bod hyn yn gyfuniad o £3,700 o’r Premiwm hyd at ac yn cynnwys 2024-25 sydd heb ei ymrwymo eto, a £914,070 o Bremiwm 2025-26 a gasglwyd uwchlaw’r ymrwymiadau.
Er tryloywder, amlygwyd bod disgwyl i’r Cyngor gyhoeddi sut caiff yr incwm ychwanegol a godwyd ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r problemau a gaiff eu hachosi gan eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, neu i fynd i'r afael â phroblemau tai lleol eraill. Rhestrwyd y cynigion newydd sydd i’w hariannu, sef Storio a chludo eiddo aelwydydd mewn llety argyfwng / llety dros dro, a Swydd Rheolwr Prosiect i'r Cynllun Gweithredu Tai.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth:

- Esboniwyd mai pwrpas y premiwm yw ceisio sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd, ac aethpwyd ymlaen i roi cyd-destun ehangach ynglŷn â’r cynigion newydd a’u henwir yn yr adroddiad. Crybwyllwyd y bydd swm sylweddol un tro i gyd fynd ag un o’r cynigion yn ogystal, ond y bydd hyn yn sicrhau arbedion tymor hir i’r Cyngor.

## 13. CRONFA TWF LLEOL: CYNLLUNIAU 2026/27 GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R Medwyn Hughes.

**PENDERFYNIAD**

Cytuno i ymrwymo'r £6,317,640 o'r arian ddarparwyd i Gyngor Gwynedd ei ddyrannu i brosiectau yn 2026/27, i'r 10 cynllun a restrir yn yr adroddiad.

Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr, i gadarnhau manylion y cynlluniau a'r cyfraniad ariannol, penderfynu ar ddarparu llythyr cynnig ac unrhyw ddogfennaeth arall ar gyfer cytuno ariannu'r prosiectau.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod dyfodiad y Gronfa Twf Lleol (LGF) wedi ei gyflwyno i'r Cabinet yn gynharach eleni, a datganwyd bod blwyddyn gyntaf y Gronfa bellach wedi cychwyn gyda chynnig o arian gan Lywodraeth Cymru i Ogledd Cymru wedi ei dderbyn. Datganwyd y caiff 2026/27 ei hystyried fel blwyddyn bontio i drefniadau newydd y Gronfa Twf Lleol. Amlygwyd y bydd yr un trefniadau llywodraethu a gweinyddu â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer 2026/27. Eglurwyd y bydd cyfrifoldeb am yr LFG yn trosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru o 2027/28 ymlaen.

Nodwyd bod cyllideb o £6,317,640 ar gael i Gyngor Gwynedd ar gyfer 2026/27, i'w ymrwymo i brosiectau. Ymhelaethwyd ar hyn gan nodi bod 73% o'r arian yn gyfalaf, a bod gofyn cynllunio ar y sail fod yr arian yn cael ei wario cyn 31 Mawrth 2027.

Esboniwyd bod y rhaglenni wedi eu dethol ar sail themâu'r Strategaeth Economaidd; Mentergarwch, Pobl, a Lle. Aethpwyd ymlaen i restru'r cynlluniau sydd wedi eu hadnabod, a gaiff eu nodi yn Atodiad 1. Ymfalchïwyd yn y ffaith bod oddeutu 50 o brosiectau wedi eu cefnogi ar draws y Sir.

Adnabuwyd blaenoriaethau'r Gronfa, sef
• Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol,
• Cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i mewn i waith,
• Gwella seilwaith rhanbarthol.
Aethpwyd ymlaen i nodi bod y meini prawf i adnabod y 10 prosiect blaenoriaeth wedi'i bennu ar sail y blaenoriaethau hyn. Rhestrwyd yr ystyriaethau allweddol ar gyfer dod a phecyn ynghyd, gan dynnu sylw at yr angen i allu gweithredu o fewn cyfyngiadau amser yr LFG.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Mynegwyd balchder o allu trafod mater cadarnhaol a llongyfarchwyd yr Adran am ddod o hyd i brosiectau cyffrous, sydd am wneud gwahaniaeth.

- Mynegwyd rhwystredigaeth wrth gyfeirio at y gwahaniaeth rhwng yr hyn mae'r Cyngor yn ei dderbyn mewn grantiau rŵan, o'i gymharu â'r hyn oedd yn cael ei dderbyn cyn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Tynnwyd sylw at her y rhwystrau sydd rhaid eu gorchfygu er mwyn derbyn yr arian hwn, ynghyd â'r nifer o newidiadau yn rheolau'r grantiau hyn, a'r amserlen dynn i wario'r arian.
- Ategwyd y rhwystredigaeth ynglŷn â'r cyfyngiadau o ran amserlen gwario'r arian, gan esbonio bod nifer o brosiectau da'n colli allan ar yr arian o ganlyniad. Gresynwyd at y ffaith fod mwyafrif o'r arian yn gyfalaf yn ogystal.
- Credwyd bod yr Adran wedi llwyddo i gyrraedd blaenoriaethau'r Gronfa.

## 14. CYDBWYLLGOR CENEDLAETHOL GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL CYMRU A MAETHU CYMRU - LLEIHAU CWORWM Y CYFARFOD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Cytuno i leihau cworwm cyfarfodydd Cydbwyllgor Cenedlaethol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru o 60% i 40%, ar yr amod bod o leiaf dri rhanbarth yn cael eu cynrychioli.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod angen 60% o aelodau'r Cydbwyllgor yn bresennol ar y funud, er mwyn cael cworwm i gynnal cyfarfod. Datganwyd bod dau gyfarfod wedi eu canslo o ganlyniad i ddiffyg cworwm, ers sefydlu'r Cydbwyllgor yn 2024.

Cadarnhawyd na fydd y newid hwn yn effeithio ar swyddogaethau na rôl y Cydbwyllgor, a'i fod yn newid ymarferol yn unig er mwyn ceisio atal gorfod canslo cyfarfodydd oherwydd diffyg cworwm.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pham fod cyn lleied o aelodau yn bresennol yn y cyfarfodydd, esboniwyd nad yw'r ateb yn hollol eglur ac nad oes modd cynnig ateb pendant am hynny. Ymhelaethwyd gan gynnig bod cynnal cyfarfodydd ar lefel genedlaethol yn achosi rhwystr wrth geisio sicrhau presenoldeb. Mynegwyd rhwystredigaeth gan yr Aelod Cabinet bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu canslo.
- Nodwyd nad oedd sicrwydd am y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad o nodi 40% fel cworwm newydd, yn hytrach na 50% er enghraifft.

- Gofynnwyd a oes unrhyw risgiau o ran effaith ar benderfyniadau wrth leihau'r cworwm i lai na hanner yr aelodaeth. Cydnabuwyd fod 40% yn eithaf isel, ond tynnwyd sylw at yr amod sy'n sicrhau fod o leiaf tri rhanbarth allan o 5 yn cael eu cynrychioli.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3:35pm.